Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

Rhagfyr 2025

# Cynnwys


**Argymhellion** ..... **4**

**1. Cyflwyniad** ..... **8**

Cefndir ..... 8

Dull craffu ..... 10

Nodyn ynghylch yr adroddiad hwn ..... 10

**2. Cyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol** ..... **11**

Trosolwg ..... 11

Cyllid ar gyfer GIG Cymru ..... 13

Cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ..... 14

Ein barn ni ..... 15

**3. Blaenoriaethau polisi** ..... **17**

Atal ..... 17

Iechyd menywod ..... 18

Iechyd meddwl ..... 19

Diwygio gofal cymdeithasol a Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ..... 20

Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ..... 21

Ein barn ni ..... 21

**4. Sefyllfa ariannol byrddau iechyd** ..... **24**

Perfformiad a chynllunio ariannol byrddau iechyd ..... 25

Ein barn ni ..... 27

**5. Amseroedd aros y GIG** ..... **28**

Ein barn ni ..... 29

**6. Buddsoddiad cyfalaf** ..... **30**

Ystâd y GIG ....... 31

Trawsnewid Digidol ....... 32

Ein barn ni ....... 32

**7. Gweithlu'r GIG ....... 34**

Staff asiantaeth a locwm ....... 34

Ein barn ni ....... 35

**8. Gwasanaethau a gweithlu gofal cymdeithasol ....... 35**

Pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol ....... 35

Y gweithlu gofal cymdeithasol ....... 38

Ein barn ni ....... 39

**9. Gofalwyr di-dâl ....... 41**

Ein barn ni ....... 42

**10. Y pwysau ar ddarparwyr annibynnol a darparwyr y trydydd sector ....... 43**

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ....... 43

Gofal lliniarol a diwedd oes ....... 44

Ein barn ni ....... 45

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu sicrhau rhagor o gyllid ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Gyllideb Derfynol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal gwasanaethau craidd y GIG ac i gyflawni swyddogaethau statudol, o ystyried asesiad Ysgrifennydd y Cabinet fod y gyllideb ddrafft yn sylweddol is na'r pwysau a ragwelir. ........................ 16

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ysgrifenedig byr i'r Pwyllgor hwn ynghylch gwaith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, gan gynnwys y prif arbedion effeithlonrwydd a weithredwyd a'r cyfleoedd a nodwyd, a hynny dim hwyrach nag wythnos cyn y drafodaeth ynghylch Cyllideb Derfynol 2026-27. Dylid rhoi'r diweddariad hwn hyd yn oed os nad yw'r adroddiad blynyddol llawn ar gael eto. ........................................................................17

**Argymhelliad 3.** Pwysleisia Llywodraeth Cymru wariant ataliol fel egwyddor graidd mewn polisi iechyd, gyda buddsoddiad mewn rhaglenni iechyd y cyhoedd ac ymyrraeth gynnar, ond mae atebolrwydd a mesur effaith yn parhau i fod yn wael. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gwmpasu dichonolrwydd sefydlu dangosfwrdd cenedlaethol ar gyfer canlyniadau iechyd ataliol. Dylai'r ymarfer cwmpasu asesu'r canlynol: ........................................22

- Buddion posibl olrhain dangosyddion allweddol, fel gostyngiadau yn nifer derbyniadau i'r ysbyty y mae modd eu hosgoi, gwelliannau i ganlyniadau iechyd meddwl a ffordd o fyw, ac arbedion costau tymor hir mewn perthynas ag atal;...22

- Costau a goblygiadau ymarferol datblygu dangosfwrdd o'r fath, gan gynnwys i ba raddau y gellid defnyddio ffynonellau data cyfredol i leihau'r baich ychwanegol........................................22

**Argymhelliad 4.** Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa bryd y mae'n disgwyl i waith ar ddadansoddi gwariant ataliol ail-ddechrau, a manylion unrhyw amserlenni neu gerrig milltir allweddol. .....................22

**Argymhelliad 5.** Cyn y drafodaeth ar y Gyllideb Derfynol, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu diweddariad byr ar y dadansoddiad allanol o'r GIG sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â gwariant ataliol, gan gynnwys manylion y gwaith sydd wedi'i gomisiynu a phwy sy'n ymgymryd ag ef........................................22

**Argymhelliad 6.** Dylai'r pwyllgor sy'n ein holynu ystyried ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd er mwyn

asesu pa mor effeithiol mae adrannau'r llywodraeth yn ymgorffori atal mewn penderfyniadau ynghylch polisi a chyllideb......22

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y gwariant sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl yn dod law yn llaw â set o ganlyniadau clir, mesuradwy sy'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. ......23

**Argymhelliad 8.** Erbyn diwedd mis Chwefror 2026, dylai'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ysgrifennu atom gyda manylion canfyddiadau'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot ar gyfer y model noddfa, gan gynnwys unrhyw gamau nesaf posibl......23

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r manylion canlynol:......24

▪ canfyddiadau gwaith cam 1 ar y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, gan gynnwys gwybodaeth y mae'n bwriadu ei chyhoeddi yn dilyn cwblhau cam 1, a pha bryd y bydd yn gwneud hyn; a ......24

▪ gwybodaeth ynghylch y gwaith a fydd yn cael ei wneud yng ngham 2, gan gynnwys yr amserlenni a'r cerrig milltir ar gyfer hyn......24

**Argymhelliad 10.** O ystyried y diffyg arian wrth gefn yn y gyllideb ddrafft, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd os bydd byrddau iechyd yn methu â bodloni eu disgwyliadau ariannol ar gyfer 2026-27, gan gynnwys sut y bydd diogelwch cleifion a pharhad yn y gwasanaeth yn cael eu diogelu......27

**Argymhelliad 11.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu manylion trafodaethau gyda byrddau iechyd ynghylch unrhyw feysydd neu wasanaethau sy'n cael eu hystyried am leihad posibl o ganlyniad i ddyraniad cyfredol y gyllideb ddrafft. Dylai hyn gynnwys manylion y meini prawf a ddefnyddiwyd i flaenoriaethu gwasanaethau, yr amserlen ar gyfer unrhyw benderfyniadau a gwybodaeth ynghylch sut fydd canlyniadau'r penderfyniadau hyn yn cael eu cyfathrebu'n gyhoeddus...... 28

**Argymhelliad 12.** Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi: ......30

▪ y mesurau penodol fydd yn cael eu cymryd i gynnal unrhyw gynnydd o ran adfer gofal a gynlluniwyd ac atal rhagor o ddirywio, yn enwedig yn y byrddau

iechyd hynny sy'n ei chael hi'n anodd gydag amseroedd aros hir ac arbenigeddau dan bwysau; ... 30

- a ydyw'n bwriadu gwneud achos am gyllid ychwanegol yn y Gyllideb Derfynol i ymateb i gynnydd sydyn yn y galw am wasanaethau neu arbenigeddau penodol. Dylai hyn gynnwys amserlenni, mecanweithiau atebolrwydd, a sut y bydd cydweithio rhanbarthol a fframweithiau optimeiddio clinigol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir. ... 30

**Argymhelliad 13.** Erbyn diwedd mis Chwefror 2026, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddaru'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r Arolwg Gwytnwch ar ystâd y GIG, gan gynnwys unrhyw gamau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad iddo. ... 33

**Argymhelliad 14.** Fel rhan o'i ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddatgan safbwynt Llywodraeth Cymru ar gontractau cynnal a chadw digidol ac, yn arbennig, y ddibyniaeth gan rai byrddau iechyd ar gontractau hirdymor sydd wedi'u lleoli'n rhyngwladol ac effaith contractau o'r fath ar integreiddio digidol a chysylltedd ar draws y GIG yng Nghymru. ... 33

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Cabinet gyhoeddi cynllun risg a lliniaru'r gweithlu ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol, gan osod allan sut y bydd unrhyw ganlyniadau posibl gan gorff adolygu cyflogau sydd uwchlaw'r rhagdybiaethau cyfredol yn cael eu hariannu neu eu rheoli. Dylai'r cynllun hwn gynnwys opsiynau wrth gefn ac amserlenni gweithredu ... 35

**Argymhelliad 16.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol amlinellu sut fydd y gyllideb ddrafft yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru. ... 39

**Argymhelliad 17.** Erbyn diwedd mis Chwefror 2026, dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: ... 40

- ein diweddaru ar ganfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol o'r Cyflog Byw Gwirioneddol (sydd i'w gyhoeddi yr hydref hwn), a rhoi manylion y camau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r gwerthusiad hwnnw; 40

- nodi ei hymateb i'r awgrym y dylai Llywodraeth Cymru ystyried clustnodi'r cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, o ystyried y pryderon parhaus ynghylch gweithredu anghyson a diffyg cyllid. ... 40

**Argymhelliad 18.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol amlinellu ei hamserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyhoeddi data pwynt gwirio gofal cymdeithasol. ....41

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyllid cynaliadwy ar gyfer gofal seibiant er mwyn cydnabod y galw a'r lefel o anghenion heb eu bodloni a nodir gan ofalwyr di-dâl. ....43

**Argymhelliad 20.** Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi: .... 46

▪ y mesurau wrth gefn a fydd yn cael eu rhoi ar waith os na fydd y bwlch o £16m mewn cyllid yn sgil y Cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch gan gyflogwyr yn cael ei ddatrys; .... 46

▪ sut fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff y GIG a darparwyr trydydd sector i ymdopi â'r costau ychwanegol hyn heb gyfaddawdu darpariaeth gwasanaeth; a .... 46

▪ pha un ai a yw rhagor o ymgysylltu â Llywodraeth y DU neu opsiynau cyllid eraill yn cael eu dilyn. .... 46

**Argymhelliad 21.** Credwn fod yna achos cryf dros gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol a diwedd oes, sy'n hollbwysig, ac argymhellwn fod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyflwyno'r achos dros hyn yn ei drafodaethau ynghylch y Gyllideb Derfynol. .... 46

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno safbwyntiau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

## Cefndir

**2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft[1] mewn dau gam:

- Cam 1 – Cyllideb Ddrafft Amlinellol[2]: Cyhoeddwyd ar 14 Hydref 2025, mae hon yn nodi dyraniadau strategol lefel uchel ar draws adrannau.
- Cam 2 – Cyllideb Ddrafft Fanwl[3]: Cyhoeddwyd ar 3 Tachwedd 2025, mae hon yn cynnwys manylion Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ac asesiadau effaith ategol.

**3.** Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn amlinellu'r cynlluniau gwariant ar gyfer un flwyddyn un unig, gan adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymgymryd â dull gweithredu gofalus[4] cyn etholiad y Senedd ym Mai 2026.

**4.** Yn ei ragair i'r Gyllideb Ddrafft Fanwl, dywed Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg:

> *"Wrth bennu eu cynlluniau gwario drafft ar gyfer 2026-27, mae pob Ysgrifennydd Cabinet wedi adeiladu ar sylfeini cadarn 2025-26 pan gafodd Cyllideb Cymru gynnydd sylweddol mewn cyllid adnoddau a chyfalaf. Mae'r dyraniadau hyn wedi'u treiglo drosodd ac mae dyraniadau adrannol wedi cynyddu tua 2% yng ngham cyntaf y Gyllideb Ddrafft.*
>
> *Cynlluniau gwario cychwynnol yw'r rhain. Y Gyllideb Ddrafft yw dechrau proses y gyllideb – nid ei diwedd. Mae'n caniatáu i'n gwasanaethau cyhoeddus ddechrau eu proses gynllunio eu hunain ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu 98.6% o'r holl gyllid sydd ar gael ar gyfer 2026-27. Mae hynny'n golygu y gellir gwneud mwy – ac y caiff*

[1] Cyllideb Ddrafft 2026-27, Llywodraeth Cymru
[2] Llywodraeth Cymru Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27, Hydref 2025
[3] Llywodraeth Cymru Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025
[4] Llywodraeth Cymru yn nodi ei dull gweithredu o ran cyllideb 2026-2027

> *mwy ei wneud – i fuddsoddi yn anghenion hanfodol Cymru, erbyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr."*[5]

**5.** Yn yr adroddiad, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn cadarnhau bod "oddeutu £380 miliwn" o gyllid heb ei ddyrannu yn y gyllideb ddrafft, sy'n cynnwys £231m o adnoddau, £136m o gyfalaf cyffredinol, a £13m o gyfalaf trafodiadau ariannol. Dywed:

> *"(…) mae'n dal yn uchelgais gan Lywodraeth Cymru ddod o hyd i feysydd o ddiddordeb cyffredin ag Aelodau eraill o'r Senedd i alluogi Cyllideb Derfynol fwy uchelgeisiol i gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2026."*[6]

**6.** Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27 wedi'i dylunio i ddarparu sicrwydd a sefydlogrwydd fel cyllideb derfynol chweched tymor y Senedd. Pwysleisiodd ei bod yn adeiladu ar gyllideb 2025-26, gan gynnal buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus allweddol, ac nad oes newid i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru (wedi'u llywio gan ymarfer gwrando Prif Weinidog Cymru yn haf 2024).[7] Un o'r blaenoriaethau hyn yw 'Cymru iachach', sy'n canolbwyntio ar:

- Leihau amseroedd aros y GIG;
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl;
- Gwella mynediad at ofal cymdeithasol; a
- Gwella gwasanaethau ar gyfer iechyd menywod.

**7.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg hefyd wedi nodi mai bwriad dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran gosod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27 yw cynnal hyblygrwydd ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru yn dilyn yr etholiad nesaf, gan osgoi penderfyniadau a allai gyfyngu ar opsiynau yn y dyfodol. Mae yna gynnydd ar gyfer:

---

[5] Llywodraeth Cymru Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025
[6] Llywodraeth Cymru Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Fanwl 2026-27, Tachwedd 2025
[7] Llywodraeth Cymru yn nodi ei dull gweithredu o ran cyllideb 2026-2027, Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, 1 Gorffennaf 2025

- chwyddiant (2% wedi'i gymhwyso i adnoddau cyllidol nad ydynt yn gyflogau (neu 'refeniw'), dyraniadau cyfalaf cyffredinol a dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol); a
- rhagolygon twf cyflogau (2.2% wedi'i gymhwyso i elfennau cyflogau'r sector cyhoeddus ar gyfer pob adran). [8]

## Dull craffu

**8.** Mae ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2026-27 wedi'i lywio gan:

- Ystyriaeth o'r themâu trawsbynciol a amlinellir yn ein Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd[9];
- Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("Ysgrifennydd y Cabinet"), y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant;
- Tystiolaeth lafar[10] gan Ysgrifennydd y Cabinet, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, a'u swyddogion;
- Ystyriaeth o'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn ystod ei waith craffu, gan gynnwys ei waith ymgynghori ac ymgysylltu ar feysydd blaenoriaeth posibl.[11]

**9.** Yn yr amser a oedd ar gael i ni, nid yw wedi bod yn bosibl ymdrin â phob maes o'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar nifer o flaenoriaethau allweddol.

## Nodyn ynghylch yr adroddiad hwn

**10.** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â dogfennau cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 14 Hydref a 3 Tachwedd 2025.

**11.** Ar 9 Rhagfyr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi ffurfio cytundeb cyllideb gyda Plaid Cymru i sicrhau bod Cyllideb Derfynol 2026-27 yn

---

[8] Llywodraeth Cymru Adroddiad y Gyllideb Ddrafft Amlinellol 2026-27
[9] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Strategaeth y Chweched Senedd
[10] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 27 Tachwedd 2025. DS: mae pob cyfeiriad at gofnod y trafodion yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â Chofnod y Trafodion ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, oni nodir yn wahanol
[11] Pwyllgor Cyllid, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

cael ei chymeradwyo ym mis Ionawr 2026. Adroddir ar dair elfen y cytundeb fel a ganlyn:

- "Cyllid ychwanegol i lywodraeth leol yn 2026-27 – £112.8m ychwanegol, sy'n darparu cynnydd cyffredinol o 4.5% i setliad llywodraeth leol. Bydd pob cyngor yn derbyn cynnydd dros 4%.
- Cyllid ychwanegol i'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol – £180m ychwanegol, sydd, ynghyd â'r cyllid yn y Gyllideb Ddrafft, yn cyfateb i gynnydd o 3.6% yn 2026-27.
- Bydd £120m o gyllid cyfalaf ar gael i'r llywodraeth nesaf ar ôl etholiad y Senedd, i'w ddyrannu."[12]

# 2. Cyllid ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

## Trosolwg

**12.** Mae'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol ("HSC MEG") yn cynnwys cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru, a chyllid ar gyfer iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant.

**13.** Yng nghyllideb ddrafft 2026-27, mae £12.7bn mewn cyllid refeniw wedi'i ddyrannu i'r HSG MEG– cynnydd o £261m ers 2025-26. Mae hyn gyfwerth â chynnydd chwyddiannol ar gyfer gwariant dydd i ddydd ar iechyd o 2.1 y cant a, gan ei fod yn fwy na 50 y cant o gyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru, dyma gyfran fwyaf y gyllideb.

**14.** Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet, mae'r gyllideb refeniw wedi'i chynyddu er mwyn adlewyrchu chwyddiant (cynnydd o 2 y cant) a phwysau cyflogau'r sector cyhoeddus (cynnydd o 2.2 y cant). Yn ôl Canolfan Llywodraethiant Cymru, pan gymerir chwyddiant i ystyriaeth, dim ond cynnydd o 0.5 y cant yw hyn mewn termau real; sydd gyda'r isaf erioed ar gyfer y GIG:

> *"It's below the 3.6 per cent real-terms annual increase that we've seen in the NHS. It's below the 2.1 per cent real-terms increase we've seen since 2010, which includes, of course, the austerity budget years.*

[12] *Cytundeb cyllideb wedi'i gyrraedd*, datganiad i'r wasg, Llywodraeth Cymru, 9 Rhagfyr 2025

*So, that kind of additional level of funding for the NHS would be significantly lower than what we have seen, and also what we're seeing as planned for the NHS in England over that period.*[13]

**15.** Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet hyn fel a ganlyn:

*"(…) Mae hon yn sefyllfa eithriadol o heriol, ar hyn o bryd, ar gyfer prif ddyraniad y GIG a'r MEG ehangach."*[14]

**16.** Mae'r papur yn cadarnhau nad oes buddsoddiad ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer cyllidebau eraill y tu hwnt i gyflogau, ac nad oes cyllid wrth gefn yn y MEG ar hyn o bryd i ymdrin â thrafodaethau tâl sy'n mynd y tu hwnt i'r dyraniadau presennol. Yn ogystal, mae'n cadarnhau bod yna ddiffyg wedi'i greu o £16m yn y cyllid ar gyfer yr HSC MEG, y mae'n dweud sydd o ganlyniad i ddiffyg yn y cyllid ar gyfer cyfraniadau uwch gan gyflogwyr i Yswiriant Gwladol. Disgwylir i sefydliadau'r GIG gymryd cost y diffyg.

**17.** Yn y papur hwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y gyllideb ddrafft, ar y lefel hon, yn:

*"(…) llawer llai na'r pwysau a'r materion amcangyfrifedig yr ydym yn eu rhagfynegi ar gyfer y GIG, a'r MEG ehangach, ar gyfer 2026-27.*

*Bydd yn hanfodol bod y MEG HSC yn gallu sicrhau cyllid pellach fel rhan o'r Gyllideb Derfynol i gydnabod y pwysau y mae'r GIG a'r MEG ehangach yn eu hwynebu yn 2026-27."*[15]

**18.** Yn ystod ein sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet, gwnaethom ei holi ai dyma'r fargen gryfaf y gallai ei sicrhau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y cylch cyllidebol, o ystyried y pwysau sylweddol ar y gwasanaeth iechyd. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru yn ystyried y gyllideb ddrafft fel cam cyntaf y broses,

*"and although it allocates the overwhelming majority of the budget, and although obviously it builds in the significant*

[13] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, 22 Hydref 2025, para 15
[14] 'Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol', 27/22/2025, cyflwyniad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru
[15] 'Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol', 27/22/2025, cyflwyniad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

> *Welsh Government increase across the board last year, there is money that remains to be allocated, and we want to see as much of that allocated to public services, in our case to health and social care, so that we can meet those additional pressures that the current settlement would not enable us to meet."*[16]

**19.** Dywedodd wrthym, er bod yna gyfleoedd i'r GIG fod yn fwy effeithlon ac effeithiol o ran darparu rhai gwasanaethau,

> *"equally, there is a need for an appropriate level of funding to make sure that the core service is able to be discharged, which is why (…) we are making the case for additional funding in those negotiations."*[17]

**20.** Gofynasom iddo sut, o fewn y setliad presennol, y byddai byrddau iechyd yn ymdopi â chostau a phwysau cynyddol. Dywedodd wrthym ei fod, yn yr un modd â'r llynedd, wedi gweithio i symleiddio'r fframwaith cynllunio er mwyn ei gwneud hi'n haws i adnabod y meysydd lle'r oedd Llywodraeth Cymru eisiau i'r gwasanaeth iechyd ganolbwyntio fwyaf arnynt. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r fframwaith cynllunio yn cynnwys y blaenoriaethau a osodwyd ganddo yn dilyn adroddiad y Grŵp Cynghori Gweinidogol[18].

## Cyllid ar gyfer GIG Cymru

**21.** Mae cyfran sylweddol o'r HSC MEG wedi'i dyrannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol eu poblogaethau perthnasol. Fel rhan o hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a llythyr Dyraniadau'r Byrddau Iechyd. Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu cyfeiriadau strategol a disgwyliadau, ac yn arwain byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd wrth iddynt wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau cysondeb â blaenoriaethau iechyd cenedlaethol.

**22.** Nid yw'r dogfennau hyn wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft 2026-27 hon. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet

[16] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 13
[17] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 14
[18] Adroddiad gan y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru, Ebrill 2025

yn cynnig gwybodaeth ynghylch y cynnydd yn erbyn fframwaith cynllunio tair blynedd GIG Cymru 2025-28.

**23.** Yn ystod ein sesiwn graffu, gwnaethom herio Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn ag argaeledd y dogfennau hyn. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r fframwaith cynllunio a'r llythyrau dyraniadau ariannol ar yr un pryd yn y flwyddyn flaenorol, a bod sefydliadau iechyd wedi croesawu hynny. Cadarnhaodd ei fod yn gweithio i'r un uchelgais ac amserlen eleni, a'i fod yn disgwyl cyhoeddi'r dogfennau hynny gyda'i gilydd, cyn y Nadolig.[19]

## Cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol

**24.** Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys gofal cymdeithasol, ei gyflwyno drwy'r grant cynnal refeniw llywodraeth leol sydd heb ei neilltuo, o ardrethi annomestig, o refeniw a godwyd yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol - gan gynnwys y dreth gyngor, ac o incwm arall. Yn ôl Llywodraeth Cymru, "awdurdodau lleol unigol sy'n pennu rheolaeth a chyfeiriad y buddsoddiad hwn".[20]

**25.** Daw buddsoddiad uniongyrchol mewn gofal cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grantiau a dyraniadau ar gyfer agweddau penodol ar ddatblygu a gwella gwasanaethau.[21] Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn nodi bod dros £175.2m o gyllid refeniw wedi'i ddyrannu yn 2025-26 er mwyn cyflawni nodau polisi gofal cymdeithasol ac integreiddio, a bod hyn yn cael ei gynnal yn 2026-27 gyda'r un ffocws.[22]

**26.** Tynnodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol sylw at y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol fel enghraifft o gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cymru ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu gyda chyllid. Roedd hyn yn cynnwys diwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, darparu gwasanaethau ar gyfer pobl fregus ac ar gyfer gofalwyr di-dâl, a sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Mewn perthynas â'r pwynt olaf, dywedodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol fod disgwyl cwblhau cynllun gweithredu cychwynnol cam 1 ddechrau mis Ebrill 2026, a bod cam 2 wedi'i

[19] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 22
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

drefnu ar gyfer 2026-28. Ategodd ei bod yn rhagweld “y bydd angen ariannu cam dau o leiaf i’r un lefel ag eleni.”[23]

**27.** Mewn perthynas â gofal preswyl plant, dywedodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol fod “£75m pellach” wedi’i ddyfarnu rhwng 2025-26 a 2027-28 drwy’r grant dileu elw a diwygio radical sydd bellach yn gyfunol. Dywedodd y byddai hyn yn cael ei rannu’n hafal ar draws pob blwyddyn ariannol, gydag oddeutu £24.9m wedi’i ddyrannu yn 2026-27.[24]

**28.** Y tu hwnt i'r HSC MEG, cefnogir gofal cymdeithasol yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mae'r setliad dros dro yn rhoi £6.4bn o Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig Llywodraeth Cymru i’w wario ar ddarparu gwasanaethau allweddol. Mae hyn yn gynnydd cyfartalog o 2.7% ar sail debyg am debyg. Dywed Llywodraeth Cymru fod y ffigwr hwn yn cynnwys £5.5m yn ychwanegol (ar ben yr £8.6m sydd wedi’i ddyrannu yn y gyllideb ddrafft) er mwyn sicrhau nad oes yr un awdurdod yn cael cynnydd sy’n is na 2.3%.

## Ein barn ni

**29.** Yng ngeiriau Ysgrifennydd y Cabinet, mae’r gyllideb ddrafft hon yn “eithriadol o heriol” ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ac yn “llawer llai na’r pwysau a’r materion amcangyfrifedig yr ydym yn eu rhagfynegi ar gyfer y GIG” yn 2026-27.

**30.** Gyda chynnydd o ddim ond 2 y cant ar gyfer elfennau heb fod yn gyflogau a chyflogau’r sector cyhoeddus yn y drefn honno, dim ond 0.5 y cant yw'r cynnydd mewn termau real ar ôl ystyried chwyddiant. Byddai hyn gyda’r isaf erioed i'r GIG, sydd, yn draddodiadol wedi bod angen cynnydd cyllid yn uwch na chwyddiant er mwyn bodloni galw cynyddol a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd. Ar y lefel hon, bydd cynnal gwasanaethau cyfredol yn anodd iawn hyd yn oed, gan adael lle prin ar gyfer ehangu darpariaeth neu fuddsoddi mewn diwygio.

**31.** Y dull a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru gyda’r gyllideb ddrafft hon yw cynnal hyblygrwydd ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru yn dilyn yr etholiad sydd i ddod a chaniatáu lle ar gyfer buddsoddi ymhellach yn y Gyllideb Derfynol yn dilyn trafodaethau gyda phleidiau eraill y Senedd. Er y caniateir hyn, fodd bynnag, nodir bod Ysgrifennydd y Cabinet o’r farn ei bod hi’n “hanfodol” i’r HSC MEG sicrhau

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

rhagor o gyllid fel rhan o’r Gyllideb Derfynol er mwyn i'r gwasanaeth iechyd gyflawni’r swyddogaethau y mae'n ofynnol iddo eu darparu.[25]

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu sicrhau rhagor o gyllid ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Gyllideb Derfynol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal gwasanaethau craidd y GIG ac i gyflawni swyddogaethau statudol, o ystyried asesiad Ysgrifennydd y Cabinet fod y gyllideb ddrafft yn sylweddol is na’r pwysau a ragwelir.

**32.** Yn ein hadroddiad ynghylch y gyllideb ddrafft flaenorol (2025-26), gwnaethom godi pryderon ynghylch cynllunio a thryloywder y GIG, yn arbennig felly absenoldeb dogfennau allweddol fel Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a’r Llythyr Dyraniadau Byrddau Iechyd, na chawsant eu cyhoeddi cyn sesiwn craffu ar y gyllideb y Pwyllgor. Er bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi mynegi’n flaenorol y byddai canllawiau cynllunio, perfformiad, ac ansawdd yn cael eu cyfuno i un dull gweithredu syml yn y dyfodol - newid yr oeddem yn ei groesawu - nid yw’r dogfennau hyn wedi’u cyhoeddi ochr yn ochr â’r gyllideb ddrafft 2026-27 hon. Mae hyn yn destun siom.

**33.** Mae'r dogfennau hyn yn hollbwysig o ran arwain sut mae byrddau iechyd yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Maent yn gosod blaenoriaethau strategol ar gyfer GIG Cymru; yn arwain y gwaith o baratoi cynlluniau tymor canolig integredig, ac yn manylu ar ddyraniadau cyllid, sy’n dylanwadu’n uniongyrchol ar y gwasanaethau y gellir eu darparu a ble y caiff adnoddau eu canolbwyntio.

**34.** Heb eu gweld, mae'n anodd asesu sut mae'r gyllideb ddrafft yn cyd-fynd â gwir anghenion darparu gwasanaethau. Mae eu habsenoldeb yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn gosod cyllideb ddrafft iechyd heb wybodaeth gyhoeddus ynghylch meysydd â blaenoriaeth am fuddsoddiad; canlyniadau disgwyliedig darparu gwasanaeth; a dyraniad cyllid ar draws byrddau iechyd.

**35.** Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl gallu cyhoeddi’r dogfennau hyn gyda’i gilydd cyn y Nadolig, ac y bydd yn eu rhannu gyda ni pan fyddant wedi’u cyhoeddi i fyrddau iechyd. Gofynnwn i'r dogfennau hyn gael eu hanfon at y Pwyllgor cyn gynted ag y maent ar gael.

**36.** Mewn perthynas â hyn, bwriad y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yw annog gwelliannau o ran effeithlonrwydd gweithredol a chynaliadwyedd ariannol. Gofynnwn i Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad ysgrifenedig byr i ni ynghylch

[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

gwaith y Bwrdd, dim hwyrach nag wythnos cyn y drafodaeth ar y Gyllideb Derfynol. Dylai'r diweddariad hwnnw gynnwys y prif arbedion effeithlonrwydd sydd wedi'u rhoi ar waith a'r cyfleoedd a nodwyd i gefnogi gwelliant ariannol.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ysgrifenedig byr i'r Pwyllgor hwn ynghylch gwaith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, gan gynnwys y prif arbedion effeithlonrwydd a weithredwyd a'r cyfleoedd a nodwyd, a hynny dim hwyrach nag wythnos cyn y drafodaeth ynghylch Cyllideb Derfynol 2026-27. Dylid rhoi'r diweddariad hwn hyd yn oed os nad yw'r adroddiad blynyddol llawn ar gael eto.

# 3. Blaenoriaethau polisi

## Atal

**37.** Mewn perthynas ag atal, mae Conffederasiwn GIG Cymru wedi nodi bod yna bwysau enfawr ar wasanaethau iechyd a gofal sy'n ei gwneud hi'n heriol iawn buddsoddi mewn mesurau ataliol. Maent yn dadlau y dylai bod adnoddau'n cael eu dyrannu i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer y boblogaeth, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i orchymyn y dylai cyfran benodol o gyllid iechyd a gofal cymdeithasol gael ei gwario ar weithgareddau ataliol ac ymyrraeth gynnar, gyda chyrff gwariant yn cael eu dwyn i gyfrif am y defnydd o'r arian hwn[26].

**38.** Fel rhan o adroddiad cyllideb ddrafft y llynedd, dywedasom ei bod ni wedi'i chael hi'n anodd cael dealltwriaeth glir o wariant cyffredinol Llywodraeth Cymru ar atal, gan gynnwys y cyfraniad a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod i ni fod gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu mecanwaith ar gyfer olrhain a mesur effaith buddsoddiadau ataliol. Fel rhan o gyllideb ddrafft eleni, gofynasom iddo ein diweddaru ar gynnydd y gwaith hwn.

**39.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd fod peth gwaith wedi'i wneud yn y maes hwn, gan gynnwys prosiect i ddadansoddi cyllideb a gwariant 2023-24, a datblygu profforma i gefnogi cyfarwyddiaethau o fewn y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar i adnabod gwariant ataliol o fewn eu cyllidebau. Wedi dweud hynny, cadarnhaodd fod ymdrechion i fesur gwariant ataliol wedi "dod i ben dros dro" oherwydd cyfyngiadau adnoddau a

[26] WGDB26-27 34, Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gonffederasiwn GIG Cymru i'r Pwyllgor Cyllid (Saesneg yn unig)

blaenoriaethau eraill sy'n mynd yn eu herbyn, er bod dadansoddiad allanol i'r GIG yn mynd rhagddo ac y gallai system gostio newydd gefnogi'r gwaith o olrhain yn y dyfodol.[27]

**40.** Fodd bynnag, cynigiodd sawl enghraifft o ymyriadau penodol, gan gynnwys brechiadau ar gyfer Feirws Syncytiol Anadlol (a arweiniodd at leihad yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty o oddeutu 33 y cant ymhlith plant dan 6 oed, a 13.7 y cant ymhlith pobl dros 75 oed); a'r rhaglen sgrinio canser yr ysgyfaint.[28]

**41.** Gwnaethom herio Ysgrifennydd y Cabinet ar sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw buddsoddiad mewn atal yn cael ei wthio o'r neilltu er budd mentrau eraill. Dywedodd wrthym fod y gwasanaeth iechyd yn "gorfod gallu rhoi ffocws ar fwy nag un peth", a'r brif her yw pennu sut i fesur effaith ataliol yn ehangach.[29]

**42.** Yn ehangach, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet yr angen am ddull 'iechyd ym mhob polisi'[30] yn y llywodraeth, a fyddai'n sicrhau bod gwahanol MEGau yn cyflawni mwy nag y gallant yn unigol, a phwysleisiodd yr ymrwymiad i wneud Cymru yn genedl Marmot.[31]

## Iechyd menywod

**43.** Yn y gyllideb ddrafft hon, darperir cyllideb o £3m i gefnogi'r gwaith o gyflwyno 'hwb braenaru iechyd menywod' ym mhob bwrdd iechyd erbyn mis Mawrth 2026. Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant y bydd yr hybiau hyn "wedi'u lleoli yn y gymuned" a'u bwriad yw "gwella mynediad teg at wasanaethau, gwella profiad cleifion, a sicrhau bod menywod yn cael gofal cyfannol wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol".

---

[27] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[28] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 66
[29] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 69-71
[30] Bwriad Llywodraeth Cymru drwy fabwysiadu dull gweithredu 'iechyd ym mhob polisi' yw sicrhau bod y canlyniadau iechyd yn cael eu llywio gan fwy na gwasanaethau gofal iechyd yn unig. Mae llawer o achosion salwch (tlodi, tai gwael, ac anghydraddoldeb) yn perthyn i feysydd polisi eraill. Er mwyn gwneud yr atal yn effeithiol, rhaid i bob adran gydnabod ei rôl o ran gwella iechyd a llesiant, gan sicrhau bod penderfyniadau ar dai, addysg, trafnidiaeth, a gofal cymdeithasol yn cyfrannu at leihau salwch ac anghydraddoldebau iechyd. Mae angen dull system gyfan er mwyn ymgorffori atal ar draws y llywodraeth. Dylid cysylltu gwariant ataliol ar iechyd â rhaglenni gofal sylfaenol ac iechyd y cyhoedd ond hefyd â thai, addysg a gofal cymdeithasol. Mae cydweithio rhwng sectorau yn sicrhau bod polisïau yn mynd i'r afael â ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd, o gartrefi diogel i deithio llesol a chymorth cymuned.
[31] Cymru fydd 'cenedl Marmot' gyntaf y byd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru, 16 Mehefin 2025

**44.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn nodi bod yna dri maes blaenoriaeth ar gyfer hybiau wedi'u pennu ar gyfer 2025-26, yn canolbwyntio ar iechyd mislif; atal cenhedlu; a gofal menopos. Cadarnhaodd y cynllun ar gyfer comisiynu gwerthusiad cenedlaethol yn dilyn sefydlu'r hybiau "i gasglu'r gwersi a'r dystiolaeth i gefnogi'r achos dros gynnal ac ehangu'r hybiau".[32]

**45.** Cadarnhaodd hefyd, er bod y ffocws yn 2025-26 ar sefydlu'r hybiau, y byddai ehangu'r hybiau ymhellach yn gofyn datblygu achos busnes. Dywedodd fod y Rhwydwaith Iechyd Menywod "yn cefnogi'r byrddau iechyd i ddatblygu eu hachosion busnes", ac mae'n disgwyl y bydd byrddau iechyd yn cynnwys cyflwyno hybiau yn ehangach yn eu IMTP 2026-29.

**46.** Yn ystod ein sesiwn graffu, gwnaethom gwestiynu'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a fyddai'r dyraniad o £3m yn ddigonol i gyflawni'r polisi yn y maes hwn. Cadarnhaodd y byddai'r £3m yn cael ei ddyrannu am bob blwyddyn o'r strategaeth 10 mlynedd, felly'r cyfanswm fydd £30 miliwn. Dywedodd wrthym:

> *"The £3 million is appropriate for what we're trying to achieve in a relatively short amount of time, up until the end of this financial year. And then, of course, there will be an evaluation done of what's worked well and what more is needed to do."*[33]

## Iechyd meddwl

**47.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant y bydd cyllid iechyd meddwl i'r GIG yn parhau i gael ei glustnodi ac y disgwylir iddo gynyddu y tu hwnt i £840m yn 2026-27. Cadarnhaodd hefyd y byddai dyrannu'r cyllid sydd wedi'i glustnodi yn fater i fyrddau iechyd unigol, yn seiliedig ar eu blaenoriaethau lleol eu hunain.[34] Serch hynny, pwysleisiodd y pwysigrwydd o symud tuag at atal ac ymyrraeth gynnar, gyda'r nod o leihau dibyniaeth ar wasanaethau acíwt a brys.

**48.** Yn ogystal, cadarnhaodd ffocws ar wneud gwasanaethau fel 111 y GIG pwyswch 2 yn rhan o'r prif lif, a gwella perfformiad drwy'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl. Mewn perthynas â'r rhaglen, dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn "parhau i fuddsoddi £2.2m y flwyddyn" yn y rhaglen.[35] Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd bwysigrwydd partneriaethau trydydd sector o ran darparu

---

[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[33] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 173
[34] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 209
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

gwasanaethau iechyd meddwl a dangosodd awydd am drefniadau cyllid tymor hwy er mwyn cefnogi cynaliadwyedd.

**49.** Er bod asesiadau yn cael eu bodloni ar gyfer rhai dan 18 oed mewn Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, dim ond dau draean o blant sy'n dechrau triniaeth therapiwtig o fewn yr amser targed (67.6% cyn pen 28 diwrnod). Gofynasom i'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant pa gamau sy'n cael eu cymryd i gau'r bwlch hwn a sicrhau mynediad prydlon at ofal i blant a phobl ifanc, a sut mae cyllideb 2026-27 yn cefnogi hyn. Dywedodd wrthym am gynllun peilot y gwnaethant ei gynnal yn sgil y grant plant (...)—£2.6 miliwn ar gyfer cynlluniau peilot ar gyfer y model noddfa. Dywedodd fod gwerthusiad ar fin cael ei gwblhau, a nododd fod tystiolaeth gynnar yn awgrymu canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys llai o bwysau ar CAMHS a gwell cyrhaeddiad addysgol i bobl ifanc.[36]

**50.** Mewn perthynas â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, nododd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant fod y strategaethau hyn wedi'u datblygu "yn y cyd-destun ariannol presennol" ac nad "ydynt yn dibynnu ar gyllid newydd neu gyllid ychwanegol".

## Diwygio gofal cymdeithasol a Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol

**51.** Wedi'i chyflwyno ym mis Ebrill 2022, bwriad y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yw cefnogi gweithgarwch i hyrwyddo diwygio a gwella gofal cymdeithasol. Mae'n cyd-fynd â chyllid a ddarperir fel rhan o'r setliad llywodraeth leol.

**52.** Nododd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol fod y Gronfa yn parhau i gefnogi datblygiad Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru. Dywedodd fod cam 1 y gwaith hwnnw, a oedd yn ymwneud â chomisiynu ymchwil i ddeall goblygiadau ariannol symud i system am ddim lle mae ei hangen, gan gynnwys cymharu rhyngwladol a modelu rhyngwladol, wedi'i gwblhau bellach. Bydd y gwaith hwnnw yn sail i gam 2, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 2026-28.

[36] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 217

## Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol

**53.** Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol sydd werth £146.8m i gefnogi modelau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

**54.** Bydd hefyd yn parhau i fuddsoddi yn y System Gofal Cymunedol Integredig, sydd â'r nod o gryfhau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned, yn enwedig ar gyfer pobl fregus, a £11.95m wedi'i ddyrannu ar gyfer nyrsio a chynllunio gofal gwell.

## Ein barn ni

**55.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn brif flaenoriaethau, yn enwedig yr angen i leihau amseroedd aros y GIG, mynd i'r afael â phwysau'r gweithlu a moderneiddio gwasanaethau. Fodd bynnag, yr her yw cydbwyso'r galw tymor byr gyda thrawsnewid tymor hir, yn enwedig yng nghyd-destun pwysau cyflogau cynyddol, seilwaith sy'n heneiddio, a disgwyliadau cynyddol gan y cyhoedd, ac mae'n hollbwysig nad yw buddsoddiad tymor hwy mewn atal yn cael ei golli wrth wneud penderfyniadau tymor byr.

**56.** Mae buddsoddi mewn atal yn hollbwysig er mwyn symud y ffocws oddi ar drin salwch i hyrwyddo iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd symud ffocws gwariant y dyfodol ar atal, ond nid yw wedi llwyddo i ddangos newid sylweddol yn y maes hwn o ran ei dyraniadau gwariant ar iechyd. Siomedig yw clywed y bu rhaid oedi'r gwaith ar ddadansoddi gwariant ataliol oherwydd blaenoriaethau eraill a chyfyngiadau ar adnoddau. Gofynnwn i Ysgrifennydd y Cabinet roi syniad o ba bryd y bydd gwaith yn y maes hwn yn ail-ddechrau, yn ogystal ag unrhyw amserlenni neu gerrig milltir allweddol.

**57.** Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau statudol sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd gwariant atal ac ataliol yn brif themâu yn y ddau adroddiad. Canfu Archwilydd Cyffredinol Cymru er bod cyrff cyhoeddus yn "cydnabod yr angen i weithio mewn modd ataliol", roedd y rhan fwyaf yn "cael trafferth gwneud newid mwy systemig tuag at atal." Yn ei farn ef, mae gan y gwasanaeth iechyd yn arbennig "rywfaint o ffordd i fynd o ran

cymhwyso ffordd o feddwl sy'n rhoi sylw i genedlaethau'r dyfodol ar draws ei weithgarwch cynllunio a chyflawni".[37]

**58.** Er ein bod yn cydnabod y pwysau sylweddol mae cyrff iechyd yn eu hwynebu, mae'n hollbwysig fod cynnydd yn digwydd o ran y newid ffocws i atal fel a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Argymhelliad 3.** Pwysleisia Llywodraeth Cymru wariant ataliol fel egwyddor graidd mewn polisi iechyd, gyda buddsoddiad mewn rhaglenni iechyd y cyhoedd ac ymyrraeth gynnar, ond mae atebolrwydd a mesur effaith yn parhau i fod yn wael. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gwmpasu dichonolrwydd sefydlu dangosfwrdd cenedlaethol ar gyfer canlyniadau iechyd ataliol. Dylai'r ymarfer cwmpasu asesu'r canlynol:

- Buddion posibl olrhain dangosyddion allweddol, fel gostyngiadau yn nifer derbyniadau i'r ysbyty y mae modd eu hosgoi, gwelliannau i ganlyniadau iechyd meddwl a ffordd o fyw, ac arbedion costau tymor hir mewn perthynas ag atal;
- Costau a goblygiadau ymarferol datblygu dangosfwrdd o'r fath, gan gynnwys i ba raddau y gellid defnyddio ffynonellau data cyfredol i leihau'r baich ychwanegol.

**Argymhelliad 4.** Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa bryd y mae'n disgwyl i waith ar ddadansoddi gwariant ataliol ail-ddechrau, a manylion unrhyw amserlenni neu gerrig milltir allweddol.

**Argymhelliad 5.** Cyn y drafodaeth ar y Gyllideb Derfynol, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu diweddariad byr ar y dadansoddiad allanol o'r GIG sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â gwariant ataliol, gan gynnwys manylion y gwaith sydd wedi'i gomisiynu a phwy sy'n ymgymryd ag ef.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r pwyllgor sy'n ein holynu ystyried ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd er mwyn asesu pa mor effeithiol mae adrannau'r llywodraeth yn ymgorffori atal mewn penderfyniadau ynghylch polisi a chyllideb.

**59.** O ran iechyd menywod, er y nodwn dystiolaeth y Gweinidog y bydd £3m yn cael ei dyrannu bob blwyddyn am y ddeng mlynedd nesaf, bydd dyraniadau cyllid

[37] *Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, Archwilio Cymru, Ebrill 2025

blynyddoedd sydd i ddod yn amodol ar flaenoriaethau Llywodraeth nesaf Cymru. Rydym yn glynu wrth ein safbwynt fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd ar y gyllideb ddrafft fod angen ymrwymiad cyllid mwy cynhwysfawr a chynaliadwy er mwyn bodloni anghenion iechyd menywod. Rydym yn bryderus efallai na fydd y lefel gyfredol o gyllid, sydd wedi'i dargedu at hybiau yn arbennig, yn ddigonol i gyflawni'r newid diwylliannol systemig a'r hyfforddiant sydd ei angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd rhwng y rhywiau.

**60.** Bydd gwerthuso'r hybiau braenaru hyn, a'r penderfyniadau ynghylch byrddau iechyd yn ehangu'r model yn y dyfodol, yn digwydd yn ystod tymor y Senedd nesaf. Dymunwn dynnu hyn at sylw'r pwyllgor sy'n ein holynu, ac awgrymwn ei fod yn fater iddynt ei ystyried ar adeg briodol.

**61.** Mewn perthynas â gwariant ar iechyd meddwl, rydym yn croesawu'r ffaith y bydd cyllid yn parhau i gael ei ddiogelu drwy'r clustnodi, ac rydym yn croesawu tystiolaeth y Gweinidog ei bod yn disgwyl i'r dyraniad o £840m gynyddu. Nodwn ei thystiolaeth fod dosbarthu'r cyllid sydd wedi'i glustnodi yn fater i fyrddau iechyd yn ôl eu blaenoriaethau lleol eu hunain. Er ein bod yn deall yr egwyddor sydd wrth wraidd hyn, credwn fod yna werth mewn sicrhau bod y cyllid hwn sydd wedi'i glustnodi yn dod law yn llaw â chanlyniadau clir, yn enwedig o ystyried ffocws strategol Llywodraeth Cymru ar atal ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau acíwt a brys.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y gwariant sydd wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl yn dod law yn llaw â set o ganlyniadau clir, mesuradwy sy'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.

**62.** Mewn perthynas â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, rydym yn bryderus, er bod asesiadau yn cael eu bodloni ar gyfer rhai dan 18 oed, dim ond dau draean o blant sy'n dechrau triniaeth therapiwtig o fewn yr amser targed. Rydym yn awyddus i weld camau yn cael eu cymryd i gau'r bwlch hwn a sicrhau mynediad prydlon at ofal i blant a phobl ifanc. Nodwn fod gwerthusiad o gynllun peilot ar gyfer y model noddfa ar fin cael ei gwblhau. Gofynnwn i'r Gweinidog ein diweddaru ar ganfyddiadau'r cynllun peilot hwn maes o law.

**Argymhelliad 8.** Erbyn diwedd mis Chwefror 2026, dylai'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ysgrifennu atom gyda manylion canfyddiadau'r gwerthusiad o'r cynlluniau peilot ar gyfer y model noddfa, gan gynnwys unrhyw gamau nesaf posibl.

**63.** O ran diwygio gofal cymdeithasol a'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, nodwn dystiolaeth y Gweinidog fod cam 1 wedi'i gwblhau, ac y bydd canfyddiadau'r ymchwil sydd wedi'i gomisiynu yn sail i waith cam 2. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth ganddi ynghylch canfyddiadau gwaith cam 1, yn ogystal â manylion y gwaith a fydd yn cael ei wneud yng ngham 2 a'r amserlenni a cherrig milltir ar gyfer hyn. Ymhellach i hynny, credwn y dylai'r Pwyllgor sy'n ein holynu barhau i fonitro cynnydd datblygiadau'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r manylion canlynol:

- canfyddiadau gwaith cam 1 ar y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, gan gynnwys gwybodaeth y mae'n bwriadu ei chyhoeddi yn dilyn cwblhau cam 1, a pha bryd y bydd yn gwneud hyn; a
- gwybodaeth ynghylch y gwaith a fydd yn cael ei wneud yng ngham 2, gan gynnwys yr amserlenni a'r cerrig milltir ar gyfer hyn.

# 4. Sefyllfa ariannol byrddau iechyd

**64.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn cadarnhau mai'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn (ym mis Medi 2025) ar gyfer 2025-26, yw "diffyg a ragwelir yn y GIG o £191m; sy'n cael ei ategu gan y rhagdybiaeth y cyflawnir £291m o arbedion". Nododd fod y gofyniad arbedion hwn yn ychwanegol at yr arbedion o £296m a gyflawnwyd yn 2024-25. Dywed:

> *"Mae sicrhau arbedion ar y lefel hon ar ben gwneud arbedion blaenorol yn rheolaidd, yn fwy na'r hyn y mae'r GIG wedi'i gyflawni yn hanesyddol, ac yn gyfran fwy na'r sylfaen dystiolaeth hanesyddol o'r hyn y mae systemau gofal iechyd yn gallu ei gyflawn o gael eu hasesu".*[38]

**65.** Cadarnha y bydd angen i gyrff y GIG gyflawni lefel sylweddol o arbedion ac effeithiolrwydd ar gyfer 2026-27, gan nodi:

> *"Ni fyddai modd cyflawni'r lefel o arbedion sydd eu hangen i sicrhau cydbwysedd ariannol yn seiliedig ar y pwysau chwyddiant a galw a aseswyd, ac ni fyddai modd cyflawni'r*

[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

*setliad cyllideb arfaethedig heb leihau'r gwasanaethau a ddarperir."*[39]

**66.** Nododd, ym mis chwech, yn erbyn yr arbedion arfaethedig o £291m, fod sefydliadau'r GIG yn gallu "disgrifio hyder yn y ddarpariaeth o £260.7m, ac mae angen cymryd camau pellach i gau'r bwlch gweddilliol". Fel y cyfryw, nododd fod risg yn parhau o ran cyflawni'r sefyllfa ragweledig hon.[40]

**67.** Cadarnhaodd hefyd, ar y cam hwn, y "gofynnir i sefydliadau'r GIG gynllunio ar sail dim cynnydd mewn cyllid ar gyfer unrhyw faterion ar wahân i chwyddiant cyflogau, ar gyfer 2026-27", a ddisgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet fel "heriol iawn" o ystyried sefyllfa gyfredol byrddau iechyd, lefelau chwyddiant disgwyliedig mewn gofal iechyd, costau triniaethau newydd a'r twf cyffredinol mewn galw am wasanaethau.[41]

**68.** Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, "mae'n glir bod setliad cyllideb ar y lefel hon yn llawer llai na'r pwysau a'r materion amcangyfrifedig yr ydym yn eu rhagfynegi ar gyfer y GIG", ond mai man cychwyn y broses yw'r gyllideb ddrafft, nid y diwedd, a bod yna le am ragor o fuddsoddi erbyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr.[42]

**69.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cadarnhau nad yw prif lythyr dyraniadau byrddau iechyd y GIG wedi'i gwblhau eto ac y bydd yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor ar ôl ei gyhoeddi i'r GIG.[43] Cadarnhaodd hefyd mai'r unig gyllid a fydd yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru drwy'r HSC MEG yw £86m er mwyn gwrthbwyso diffygion byrddau iechyd yn 2025-26; cyllid i gefnogi chwyddiant cyflogau; a chyllid polisi penodol ar gyfer eu pwrpas bwriadedig. Ni fydd y MEG yn cadw unrhyw gyllid arall, ac nid oes yna gynlluniau wrth gefn ar waith petai byrddau iechyd yn methu â bodloni'r disgwyliadau a osodwyd ar gyfer 2026-27.[44]

## Perfformiad a chynllunio ariannol byrddau iechyd

**70.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn diweddaru perfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd, gan gynnwys y sefyllfa ddiwedd blwyddyn a ragwelir ar gyfer 2025-26. Nododd fod pob Ymddiriedolaeth ac awdurdod iechyd arbennig wedi cyflwyno cynlluniau tymor canolig integredig sy'n cydbwyso, ynghyd â thri bwrdd iechyd. Cyflwynodd y pedwar bwrdd iechyd

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

arall gynlluniau a fethodd â bodloni'r ddyletswydd statudol, ac ni argymhellwyd eu cymeradwyo.

**71.** Dywedodd mai sefyllfa gronnol y cynlluniau tymor canolig integredig a gyflwynwyd gan fyrddau iechyd oedd "diffyg rhagweladwy o £187m", a oedd yn £190.9m ym mis chwech. Dywedodd hefyd y "dylid ystyried diffyg cyfredol rhagweladwy y GIG yn erbyn y ffaith bod £86m o gyllid heb ei ddyrannu yn cael ei gadw yn ganolog yn y Prif Grŵp Gwariant i wneud iawn am ddiffygion y GIG, felly mae diffyg net o £114.9m yn ein rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer sefyllfa'r GIG." Nododd fod y cyllid hwn wedi'i gadw o fewn y MEG i wrthbwyso'r cyfansymiau rheoli targed a osodwyd yn 2024-25.[45]

**72.** Gwnaethom herio Ysgrifennydd y Cabinet ar strategaeth tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau dibyniaeth y byrddau iechyd ar gyllid sy'n cael ei gadw'n ganolog, a'r gwersi sy'n cael eu dysgu er mwyn cryfhau gosod, goruchwylio ac atebolrwydd cyllideb. Dywedodd Hywel Jones, Cyfarwyddwr Cyllid ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru, wrthym fod fframwaith rheoli clir iawn wedi'i roi ar waith yn 2023-24, a bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio adeiladu ar hwnnw. Dywedodd:

> *"over the last four-year period, the [health] service would have delivered around £1 billion in savings, around £600m of which is recurrent".*[46]

**73.** Dywedodd wrthym, o ran tryloywder ac atebolrwydd, fod fframwaith cyson a theg wedi bod yn bwysig, ynghyd â dull gweithredu heb achubiaeth a disgwyliad bod y cynlluniau a'r ymrwymiadau yn cael eu bodloni.[47]

**74.** Dywedodd fod yr £86 miliwn sydd wedi'i gadw eleni yn gyllid a oedd yn gwrthbwyso'r cyfansymiau rheoli targed a gafodd eu gosod y llynedd yn uniongyrchol. Cadarnhaodd fod yna beth amrywiaeth rhwng y saith bwrdd iechyd, ac y byddai Llywodraeth Cymru yn dal ei gafael ar y cyllid hwnnw yn ganolog nes bod yna lwybr clir.[48]

**75.** O ran dysgu gwersi, dywedodd fod dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn ceisio darparu lefel briodol o gyllid i'r system er mwyn bodloni chwyddiant a galw,

[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[46] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 41
[47] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 42
[48] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 42

gan hybu lefel uchel o uchelgais o ran mynd i'r afael ag amrywiad ac arbedion, a chael llwybr i sefydliadau sydd mewn diffyg y gellir eu cefnogi.[49]

**76.** O ystyried yr £86m sy'n cael ei gadw'n ganolog gyda'r MEG a'r diffyg gwerth £190m a ragwelir ar gyfer y GIG, gofynasom i Ysgrifennydd y Cabinet pa feini prawf fyddai'n cael eu defnyddio i ddyrannu'r cyllid hwn. Cadarnhaodd mai trefniant dros dro oedd y cyfansymiau rheoli targed er mwyn cael cydbwysedd yn y byrddau iechyd unwaith eto a bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth yn seiliedig ar broffiliau perthnasol byrddau iechyd a'u gallu i berfformio yn erbyn eu heriau ariannol.[50]

## Ein barn ni

**77.** Er gwaethaf dyraniadau ychwanegol, mae GIG Cymru yn wynebu diffyg a ragwelwyd gwerth £191 miliwn yn 2025-26. Mae hyn yn dibynnu ar fyrddau iechyd yn gwneud arbedion sylweddol o £291m yn ychwanegol at yr arbedion a wnaed yn 2024-25, a ddisgrifir gan Ysgrifennydd y Cabinet fel "yn fwy na'r hyn y mae'r GIG wedi'i gyflawni yn hanesyddol, ac yn gyfran fwy na'r sylfaen dystiolaeth hanesyddol o'r hyn y mae systemau gofal iechyd yn gallu ei gyflawn o gael eu hasesu". Ar ben hyn, bydd angen i gyrff y GIG gyflawni "lefel sylweddol o arbedion ac effeithlonrwydd unwaith eto ar gyfer 2026-27".

**78.** Yn ogystal â'r arbedion sylweddol a ddisgwylir gan fyrddau iechyd, maent wedi cael gwybod y dylent gynllunio am ddim cynnydd mewn cyllid ar wahân i chwyddiant cyflogau yn 2026-27. Mae hyn yn gwneud cynaliadwyedd ariannol yn her enfawr.

**79.** Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, nid yw sefydliadau iechyd yn hyderus y gallant gyflawni'r arbedion sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. O ystyried y sefyllfa hon, rydym yn cwestiynu'r penderfyniad i beidio â rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith os yw byrddau iechyd yn methu â bodloni'r disgwyliadau a osodwyd ar gyfer 2026-27.

**Argymhelliad 10.** O ystyried y diffyg arian wrth gefn yn y gyllideb ddrafft, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd os bydd byrddau iechyd yn methu â bodloni eu disgwyliadau ariannol ar gyfer 2026-27, gan gynnwys sut y bydd diogelwch cleifion a pharhad yn y gwasanaeth yn cael eu diogelu.

[49] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 43
[50] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 59-60

**80.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym na fyddai'n bosib cyflawni'r lefel o arbedion sydd eu hangen i gyflawni'r cydbwysedd ariannol yn seiliedig ar y pwysau a aseswyd o ran chwyddiant a galw, a'r setliad cyllideb arfaethedig "heb leihau'r gwasanaethau a ddarperir". Er ein bod yn cydnabod nad y darlun ariannol terfynol yw'r gyllideb ddrafft, credwn ei bod hi'n bwysig bod Ysgrifennydd y Cabinet yn rhannu gwybodaeth gyhoeddus ynghylch y meysydd neu'r gwasanaethau sy'n cael eu hystyried ar gyfer lleihad posibl yn y dyfodol, a sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mesur effaith y rhain ar ganlyniadau iechyd a chynaliadwyedd ariannol.

**Argymhelliad 11.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu manylion trafodaethau gyda byrddau iechyd ynghylch unrhyw feysydd neu wasanaethau sy'n cael eu hystyried am leihad posibl o ganlyniad i ddyraniad cyfredol y gyllideb ddrafft. Dylai hyn gynnwys manylion y meini prawf a ddefnyddiwyd i flaenoriaethu gwasanaethau, yr amserlen ar gyfer unrhyw benderfyniadau a gwybodaeth ynghylch sut fydd canlyniadau'r penderfyniadau hyn yn cael eu cyfathrebu'n gyhoeddus.

# 5. Amseroedd aros y GIG

**81.** Mewn perthynas ag adfer gofal a gynlluniwyd, mae tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet yn cadarnhau nad yw'r gyllideb ddrafft yn darparu rhagor o gyllid (y tu hwnt i'r £20m sy'n bodoli eisoes) i barhau â chynllun gofal a gynlluniwyd 2025/26 ar sail reolaidd. Dywedodd:

> *"Yn 2025-26 darparwyd £100m yn ychwanegol. Nid yw'r un o'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer dyrannu'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2026-27 yn cynnwys mentrau gofal a gynlluniwyd, ond mae'r £20m y cytunwyd arno ar ddechrau 2025-26 o fewn y MEG yn dal ar gael."*[51]

**82.** Roedd y £100m ychwanegol wedi'i ddyrannu fel rhan o gynllun blwyddyn gyfan i gael gwared ar amseroedd aros o ddwy flynedd; lleihau'r rhestr aros gyffredinol 200,000; ac adfer y targed diagnostig wyth wythnos erbyn mis Mawrth 2026. Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet, bydd cyflawni'r targedau cyflawni hyn "yn helpu i greu sefyllfa fwy cadarn a chynaliadwy ym maes gofal a gynlluniwyd ar gyfer 2026-27".[52]

[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

**83.** Cadarnhaodd yr ymrwymiad i barhau â'r gronfa trawsnewid gofal a gynlluniwyd a'r rhaglen gofal clinigol a gynlluniwyd yn 2026-27. Nododd y bydd y gronfa hon i drawsnewid yn "parhau i adeiladu ar fodelau gofal sy'n meithrin cynaliadwyedd a chysondeb cenedlaethol o ran dull gweithredu".[53]

**84.** Yn ystod ein sesiwn graffu, gwnaethom gwestiynu Ysgrifennydd y Cabinet a fyddai'r £20m cyfredol yn ddigonol i fodloni'r targedau adfer. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â dull dau drac; sef darparu rhywfaint o gyllid ychwanegol er mwyn cydbwyso'r system unwaith eto, a hefyd sicrhau bod byrddau iechyd yn cyflawni ar eu fframweithiau optimeiddio rhwydwaith clinigol - diwygio dan arweiniad clinigwyr ar gyfer gwasanaethau unigol. Dywedodd fod y rhain yn hollbwysig i gynaliadwyedd y gwasanaeth iechyd.[54]

**85.** Gofynasom iddo hefyd am y mesurau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i atal rhagor o ddirywiad wrth geisio gofal a gynlluniwyd. Cyfeiriodd at y cyllid ychwanegol sy'n cael ei roi i'r ddau fwrdd iechyd sydd â'r amseroedd aros hiraf, yn ogystal â rhywfaint o gymorth clinigol ychwanegol sy'n cael ei ddarparu er mwyn gwella gwasanaethau. Cyfeiriodd hefyd at y cynnydd yn y cydweithio rhanbarthol ar gyfer darparu gwasanaethau, a hynny'n rhannol oherwydd cyfeiriad gweinidogol, a dywedodd fod hyn yn cyflwyno cyfle go iawn o ran gofal a gynlluniwyd.[55]

## Ein barn ni

**86.** Yn 2025-26, bwriad y dyraniad o £100m ychwanegol oedd cydbwyso'r system unwaith eto, gyda tharged o gael gwared ar amseroedd aros o ddwy flynedd erbyn mis Mawrth 2026, lleihau'r rhestr aros 200,000 ac adfer y targed diagnostig o wyth wythnos. Nid yw terfyn amser y targed ymhell i ffwrdd, ac yn fuan bydd hi'n bosibl beirniadu canlyniadau'r buddsoddiad hwnnw i bennu a ydyw wedi cyflawni sefyllfa fwy cadarn a chynaliadwy mewn perthynas â gofal a gynlluniwyd ar gyfer 2026-27, yn unol â bwriad Ysgrifennydd y Cabinet.

**87.** Gan edrych ymlaen, nid yw Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer adfer gofal a gynlluniwyd y tu hwnt i'r £20 miliwn presennol. Gyda'r rhestr aros gyffredinol yn dal i fod yn uchel a setliad y gyllideb yn is na'r pwysau a ragwelir, rydym yn bryderus am y posibilrwydd o unrhyw enillion mewn gofal a gynlluniwyd yn cael eu colli, ac i'r sefyllfa ddirywio ymhellach. Rydym yn

[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[54] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 149-151
[55] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 156-157

cydnabod y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn atal hyn, gan gynnwys y cynnydd mewn cydweithio rhanbarthol ar gyfer darparu gwasanaeth, ac rydym yn croesawu hynny. Serch hynny, credwn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet osod yn fwy manwl pa fesurau penodol fydd yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i gynnal unrhyw enillion o ran adfer gofal a gynlluniwyd ac atal rhagor o ddirywio, yn enwedig yn y byrddau iechyd hynny sy'n ei chael hi'n anodd gydag amseroedd aros hir ac arbenigeddau dan bwysau.

**Argymhelliad 12.** Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi:

- y mesurau penodol fydd yn cael eu cymryd i gynnal unrhyw gynnydd o ran adfer gofal a gynlluniwyd ac atal rhagor o ddirywio, yn enwedig yn y byrddau iechyd hynny sy'n ei chael hi'n anodd gydag amseroedd aros hir ac arbenigeddau dan bwysau;
- a ydyw'n bwriadu gwneud achos am gyllid ychwanegol yn y Gyllideb Derfynol i ymateb i gynnydd sydyn yn y galw am wasanaethau neu arbenigeddau penodol. Dylai hyn gynnwys amserlenni, mecanweithiau atebolrwydd, a sut y bydd cydweithio rhanbarthol a fframweithiau optimeiddio clinigol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.

**88.** Yn ehangach, bydd angen buddsoddiad parhaus am nifer o flynyddoedd er mwyn lleihau'r ôl-groniad gofal a gynlluniwyd. Ni ellir dyrannu cyllid ychwanegol er mwyn lleihau rhestrau aros fel mesur rheolaidd. Rhaid i unrhyw gynllun hirdymor i fynd i'r afael â'r ôl-groniad ystyried iechyd a gofal cymdeithasol fel un system rhyngddibynnol a cheisio mynd i'r afael â'r heriau o ran galw a chapasiti ar draws y bwrdd.

# 6. Buddsoddiad cyfalaf

**89.** Mae'r Gyllideb Ddrafft 2026-27 yn dyrannu gwerth £625.8m mewn cyllid cyfalaf cyffredinol i Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn gynnydd o £6.3m o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2025-26. Er bod y gyllideb gyfalaf hon yn cynnwys cynnydd chwyddiannol o 2 y cant (£12.3m), cafodd y llinell sylfaen ei lleihau £5.45m oherwydd na chafodd cyllid untro ei ailadrodd.

**90.** Yn ystod ein sesiwn graffu, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod £566m o'r cyllid cyfalaf hwnnw ar gael i'w ddyrannu. Aeth yn ei flaen i gadarnhau:

> *"We've got £116 million for estates infrastructure and equipment, and £112 million as discretionary funding for health boards to invest as they see fit locally.*
>
> *We've got £60 million for digital transformation, £113 million for the all-Wales programme, which is around cyber security Wi-Fi upgrades, the more conventional IT kit questions.*
>
> *Then there's a further £115 million that is in the process of being agreed, but that will be a mix of new-build activity and refurbishment."*[56]

**91.** Dywedodd wrthym fod yna fframwaith â sawl maen prawf iddo ar gyfer penderfynu ar yr hyn y buddsoddir ynddo.[57]

## Ystâd y GIG

**92.** Amcangyfrifir fod ôl-groniad cynnal a chadw ystâd y GIG yn £1.34 biliwn. Bydd y Gronfa Ystadau wedi'i Thargedu (£40m) yn cefnogi problemau ystadau risg uchel o ran ystadau, gan gynnwys diogelwch tân, iechyd meddwl, datgarboneiddio a rheoli heintiau.

**93.** Bydd cyllideb gyfalaf ddangosol gwerth £566m ar gyfer 2026-27 yn cefnogi adeiladau newydd, cynnal a chadw, seilwaith digidol a chyfarpar. Ymhlith y prif brosiectau mae adnewyddu Ysbyty'r Tywysog Siarl, Canolfan Ganser Felindre, a hybiau diagnostig cymunedol.

**94.** Yn ei dystiolaeth, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y cyflwr yn "debygol o barhau i ddirywio" oherwydd oed yr ystâd a'r seilwaith. Ychwanegodd:

> *"Heb raglen sylweddol o ddatblygu adeiladau newydd neu ailddatblygu safleoedd presennol ar raddfa fawr, mae'n annhebygol y bydd gostyngiad sylweddol neu barhaus yn y rhwymedigaethau cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni."*[58]

**95.** Nododd hefyd, yn 2026-27, fod swyddogion yn ystyried a fyddai'n briodol argymell cynyddu cyllid cyfalaf dewisol i sefydliadau o £100m i £112m. "Fodd bynnag, mae hyn yng nghyd-destun y duedd o gynnydd mewn gwaith cynnal a

[56] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 132
[57] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 132
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

chadw sydd wedi ôl-gronni, felly er y byddai'n cael ei groesawu, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r pwysau chwyddiannol yn y maes hwn."[59]

**96.** Mewn perthynas â chyfarpar diagnostig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu "cynyddu'r cyllid ar gyfer cyfarpar diagnostig a chyfarpar newydd o'r £15m sydd eisoes wedi'i gymeradwyo i £30m, gan ganolbwyntio i ddechrau ar gyfnewid cyfarpar sydd wedi dyddio â chyfarpar mwy modern".[60]

**97.** O ystyried graddfa'r ôl-groniad cynnal a chadw, gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet pam nad oes mwy o'r cyllid cyfalaf sydd heb ei ddyrannu wedi cael ei ddyrannu ar gyfer hyn. Dywedodd wrthym fod y cyllid dewisol ar gael i fyrddau iechyd er mwyn mynd i'r afael â pheth o'r ôl-groniad, a'u bod wedi cael gwybod gan y byrddau iechyd fod ymyriadau wedi'u targedu, fel gwaith ar y to yn Ysbyty Tywysoges Cymru, yn dechrau gwneud gwahaniaeth.[61]

**98.** Wrth sôn am ddatgarboneiddio'r ystâd, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod hyn yn un o'r meini prawf a oedd eisoes yn cael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau am fuddsoddi, ac y byddai adroddiad Arolwg Gwytnwch, yn cwmpasu pob elfen ar addasu adeiladau, yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf. Cyfeiriodd hefyd at enghreifftiau o arloesi yn y maes hwn, gan gynnwys fferm solar yn Ysbyty Treforys.[62]

## Trawsnewid Digidol

**99.** Bwriad Llywodraeth Cymru yw cynnal y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol, gwerth £40m, i gefnogi trawsnewid digidol strategol.

**100.** Ochr yn ochr â hyn, yn 2026-27, bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno cronfa ddigidol wedi'i thargedu i "gefnogi buddsoddiadau mewn cyfarpar TG, adnewyddu caledwedd a seiberddiogelwch".

## Ein barn ni

**101.** O ran cyfalaf, mae'r gyllideb ddrafft yn weddol dynn. Er ein bod yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi gallu cynnal cynnydd y llynedd a gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd chwyddiannol o 2 y cant, nid yw'r cynnydd cyffredinol o £6.3m yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2026-27 yn gadael llawer o le ar

[59] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[61] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 134
[62] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 142

gyfer prosiectau seilwaith newydd, oni bai y darperir cyllid ychwanegol yn ddiweddarach ym mhroses y gyllideb.

**102.** Mae'r gost o redeg ystâd a seilwaith sy’n heneiddio yn y GIG yn parhau i godi, ac mae'n rhaid i sefydliadau’r GIG gydbwyso costau parhaus y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw gyda’r angen i fuddsoddi mewn adeiladau, cyfarpar a darpariaeth ddigidol well. Rydym yn bryderus y gallai’r dyraniad cyfalaf cyfredol gyfyngu ar y gallu i gyflawni gwaith ad-drefnu gwasanaeth ac amharu ar fesurau datgarboneiddio a gwytnwch hirdymor, gan gynnwys uwchraddio adeiladau i ymdopi â heriau'r hinsawdd yn y dyfodol. Nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet fod Arolwg Gwytnwch ar fin cael ei gyhoeddi, a gofynnwn iddo ein diweddaru maes o law ar ganfyddiadau'r arolwg hwnnw ac unrhyw gamau gweithredu mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad iddo.

**Argymhelliad 13.** Erbyn diwedd mis Chwefror 2026, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddaru’r Pwyllgor ar ganfyddiadau’r Arolwg Gwytnwch ar ystâd y GIG, gan gynnwys unrhyw gamau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad iddo.

**103.** Yn ehangach, ac o ystyried graddfa sylweddol yr ôl-groniad cynnal a chadw ystadau, credwn fod angen strategaeth gyfalaf hirdymor, glir sy’n mynd i’r afael â’r ôl-groniad hwnnw ac sy’n buddsoddi mewn adeiladau, cyfarpar a systemau digidol. O ystyried pa mor agos yw etholiad cyffredinol nesaf Cymru, fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd strategaeth o’r fath, ac felly dylai hyn fod o ddiddordeb i'r pwyllgor sy’n ein holynu.

**104.** Mewn perthynas â’r seilwaith digidol, nodwn y dyraniad o £60m ar gyfer trawsnewid digidol a £113m ar gyfer rhaglen Cymru gyfan. Testun pryder arbennig i ni yw contractau cynnal a chadw digidol, yn enwedig y ddibyniaeth ar gontractau hirdymor sydd wedi’u lleoli yn UDA ac effaith pwysau chwyddiant a chyfraddau cyfnewid, ac effaith contractau o’r fath ar integreiddio digidol ar draws y GIG yng Nghymru. Gofynnwn i Ysgrifennydd y Cabinet ymateb i'r pryderon hyn.

**Argymhelliad 14.** Fel rhan o’i ymateb i’r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddatgan safbwynt Llywodraeth Cymru ar gontractau cynnal a chadw digidol ac, yn arbennig, y ddibyniaeth gan rai byrddau iechyd ar gontractau hirdymor sydd wedi’u lleoli’n rhyngwladol ac effaith contractau o'r fath ar integreiddio digidol a chysylltedd ar draws y GIG yng Nghymru.

# 7. Gweithlu'r GIG

**105.** Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cynnydd o 2.2 y cant ar gyfer cyflogau'r sector cyhoeddus ac yn cynnal cyllid ar gyfer Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol.

**106.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, cadarnha Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo dau gorff adolygu cyflogau annibynnol – sef Corff Adolygu Cyflogau'r GIG a'r Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion. Nododd y bydd "angen ystyried y fforddiadwyedd unwaith y bydd argymhellion y cyrff adolygu cyflogau yn hysbys, ond,

> *"ar y cam hwn ym mhroses y gyllideb, nid ydym mewn sefyllfa i gynnal unrhyw swm wrth gefn o fewn y MEG" [i ganiatáu canlyniadau posibl trafodaethau ynghylch cyflogau'r GIG]."*[63]

**107.** Gwnaethom herio Ysgrifennydd y Cabinet ar ddiffyg darpariaeth trefniadau wrth gefn yn y gyllideb ddrafft. Dywedodd wrthym:

> *"in putting the budget together, we've looked at a number of elements, so the Office for Budget Responsibility's forecast for inflation and pay growth in the wider economy, and then an uplift, obviously, as you know, has been provided to each MEG. But staffing is one of the largest items of expenditure in the health service, for obvious reasons, and we want to make sure that we're balancing fair pay for hard-working health and care workers with the ability to deliver the service overall."*[64]

## Staff asiantaeth a locwm

**108.** Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn cadarnhau gostyngiad sylweddol yn y gwariant ar staff asiantaeth a locwm, o £325 miliwn yn 2022-23 i ffigwr a ragwelir o £123.5 miliwn yn 2025-26, gyda disgwyl i bob bwrdd iechyd barhau â'r tuedd gostyngol hwn.

**109.** Yn ystod ein sesiwn graffu, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym, er bod gwaith i'w wneud eto, fod lefel eithaf da o lwyddiant wedi bod mewn cyfnod byr. Dywedodd fod gwaith yn y maes hwn wedi arwain at lefelau gwell o gadw staff a

[63] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[64] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 189

llai o swyddi gwag, ynghyd â mwy o hyblygrwydd i staff parhaol. Peth arall sydd wedi bod yn fuddiol yw annog pobl i ymuno â'r banc staffio, oherwydd eu bod yn ddarostyngedig i delerau ac amodau 'Agenda at gyfer Newid', ac yn amlwg mae hynny'n fwy ffafriol yn gyffredinol.[65]

## Ein barn ni

**110.** Fel mae pethau ar hyn o bryd, nid yw cyllideb ddrafft 2026-27 yn cynnwys unrhyw gyllid wrth gefn i ganiatáu ar gyfer canlyniadau posibl trafodaethau ynghylch cyflogau'r GIG. Credwn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth ynghylch sut fydd unrhyw ganlyniadau gan gorff adolygu cyflogau sydd uwchlaw'r rhagdybiaethau cyfredol yn cael eu hariannu neu eu rheoli.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Cabinet gyhoeddi cynllun risg a lliniaru'r gweithlu ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol, gan osod allan sut y bydd unrhyw ganlyniadau posibl gan gorff adolygu cyflogau sydd uwchlaw'r rhagdybiaethau cyfredol yn cael eu hariannu neu eu rheoli. Dylai'r cynllun hwn gynnwys opsiynau wrth gefn ac amserlenni gweithredu.

**111.** Yn ehangach, rydym yn croesawu'r gostyngiad sylweddol mewn gwariant ar staff asiantaeth a locwm. Mae'r cynnydd hwn yn dechrau cyflawni gwell lefelau cadw staff cyfredol a llai o swyddi gwag. Serch hynny, mae costau staff asiantaeth a locwm yn parhau i fod yn sylweddol, a bydd cynnal y gwelliant hwn yn dibynnu ar ymdrechion parhaus i hybu lefelau cadw staff ac ehangu'r defnydd o fanciau staff y GIG.

# 8. Gwasanaethau a gweithlu gofal cymdeithasol

## Pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol

**112.** Yn ôl CLlLC, "mae'r rhagolygon ariannol yn edrych yn fwyfwy ansefydlog, yn sgil mwy o alw, costau cynyddol, sefyllfa fregus y gweithlu, a ffynonellau cyllid ansicr". Mae wedi adrodd bod gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i wynebu heriau ariannol difrifol, sy'n gwaethygu, gyda chynghorau yn adrodd am bwysau sylweddol yn ystod y flwyddyn a gorwariant mawr.[66]

[65] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 185
[66] WGDB_26-27 45, Tystiolaeth ysgrifenedig CLlLC i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

**113.** O ystyried y cynnydd bach yn y gyllideb, gwnaethom herio'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar ba un ai a oedd hi'n hyderus y byddai'n ddigonol i fodloni'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol. Dywedodd wrthym fod gofal cymdeithasol yn wasanaeth awdurdod lleol yn bennaf a bod y rhan fwyaf o gyllid sy'n mynd i mewn i ofal cymdeithasol yn mynd drwy lywodraeth leol gyda chyfraniad cymharol fach gan yr HSC MEG, a hynny ar ffurf grantiau yn bennaf. Meddai:

> *"I'm actually going through a series of regional accountability meetings at the moment with each of our regions—so, that's the chairs of RPBs, it's the health boards and local authorities—to report back to me as Minister, and, ultimately, to the Cabinet Secretary, as well, about their delivery and what they're doing in that space to ensure that the money that is being allocated to them is being (…) used, in a way that's delivering those objectives.*
>
> *What sits alongside that, however, and which is particularly challenging, is the increasing demand, and the demand is something that you can't control."*[67]

**114.** Gofynasom i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol a yw cyllid grant yn ffordd gynaliadwy o ariannu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol hyn, o ystyried y feirniadaeth fynych nad yw trefniadau o'r fath yn darparu sicrwydd. Pwysleisiodd fod gwasanaethau cymdeithasol craidd yn cael eu hariannu gan awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, a bod cyllid grant yn bennaf yn cael ei ddarparu i sefydliadau'r trydydd sector. Tynnodd sylw at y grantiau pum mlynedd a oedd ar gael ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, a oedd, meddai, yn eithaf unigryw o ran cyllid grant, a chydnabu'r angen am sefydlogrwydd wrth ddarparu gwasanaethau.

**115.** Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oedd ymrwymiadau sylweddol y Rhaglen Lywodraethu wedi'u hariannu drwy grant wastad yn cael eu cyflawni'n gyson ledled Cymru. Wrth ymateb i hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â dull gweithredu newydd o geisio darpariaeth gan bartneriaid trydydd sector ar sail Cymru gyfan.[68]

**116.** Caiff gofal cartref ei ddyfynnu'n gyson fel prif faes lle mae galw cynyddol a gorwariant. Yn ôl CLILC, adroddodd un cyngor am bwysau gwerth £2.7m a hynny

[67] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 105-107
[68] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 110-112

ym maes gofal cartref yn unig[69]. Yn ôl yr Homecare Association, mae darparwyr mewn diffyg cyllideb sylweddol a dim ond cynnydd yn y gyllideb sydd uwchlaw chwyddiant a fyddai'n eu galluogi i fodloni'r costau cynyddol a chynnal safonau'r gwasanaeth.[70] Dywedasant fod darparwyr yn gorfod ymdopi â chostau cenedlaethol sy'n cynyddu, wrth i gomisiynwyr barhau i osod cyfraddau ffioedd nad ydynt yn adlewyrchu gwir gostau darparu. Maen nhw a Fforwm Gofal Cymru wedi dweud bod y cynnydd yn y ffioedd gan awdurdodau lleol i brynu gofal yn gyson heb fod yn ddigonol i ymdrin ag effaith gyfunol y Cyflog Byw Gwirioneddol a'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

> *"When fee rates fall short, margins shrink, quality is put at risk and the workforce leaves for other sectors".*

**117.** Mae awdurdodau lleol a CLlLC yn parhau i alw am gynyddu'r uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gwasanaethau gofal amhreswyl er mwyn lleddfu pwysau costau.[71] Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru na fyddai cynnydd i'r cyfyngiad "ar hyn o bryd" yn dilyn ymgynghoriad.[72]

**118.** Gofynasom i'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol am ei hymateb i'r galwadau parhaus gan awdurdodau lleol ynghylch hyn. Cadarnhaodd ei phenderfyniad i beidio â chodi'r cyfyngiad, gan ddweud bod hyn wedi'i lywio gan awydd i ddiogelu'r bobl fwyaf bregus a'r rhai sydd â'r lleiaf o allu i dalu'r ffioedd gofal cartref hynny, ac i gadw at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i beidio â chodi'r ffi i fwy na £100 yr wythnos yn y tymor Llywodraeth hwn. Pwysleisiodd y cymorth ariannol ychwanegol a ddarparwyd i awdurdodau lleol i wneud iawn, i bob pwrpas, am na wnaethant godi'r cyfyngiad.[73]

**119.** Gwnaethom gwestiynu'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar dystiolaeth Conffederasiwn GIG Cymru yn galw am asesiad annibynnol o wariant awdurdodau lleol ar ofal cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael â'r amrywiad o ran buddsoddi mewn gofal cymdeithasol ledled Cymru. Dywedodd wrthym:

---

[69] WGDB_26-27 45, Tystiolaeth ysgrifenedig CLlLC i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26
[70] WGDB_26-27 12, Tystiolaeth ysgrifenedig Homecare Association i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26
[71] WGDB_26-27 45, Tystiolaeth ysgrifenedig CLlLC i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26
[72] Datganiad Ysgrifenedig: Codi'r uchafswm tâl wythnosol ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl i oedolion, Llywodraeth Cymru 6 Rhagfyr 2024
[73] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 125

> *"Our ambition is absolutely to have that national care service with a national fee methodology that will be consistently applied across the whole of Wales. So, in a sense, that is the work that we are doing. That is stage 1 of the move towards a national care service, and the work that we're doing on that will inform stage 2, which will be about how we can deliver that consistent fee methodology across the country."*[74]

## Y gweithlu gofal cymdeithasol

**120.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn cadarnhau y bydd y gyllideb ddrafft yn cynnal cyllid ar gyfer Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, gyda'r Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol yn parhau i gynnwys cyllid i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng y Cyflog Byw Gwirioneddol a'r Grant Cynnal Refeniw.

> ..*Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei gefnogi ymhellach gan y Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol i fynd i'r afael â chyflog teg yn y sector sy'n cynnwys yr ymrwymiad i ddatblygu fframwaith cyflog a chynnydd ar gyfer y sector, gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd cyflog, dilyniant a datblygiad mwy cyson i ddenu mwy o bobl i weithio mewn gofal cymdeithasol*

**121.** Rydym yn parhau i glywed pryderon ynghylch cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol. Yn ôl CLlLC, nid oes cyllid digonol ar gael yn y setliad, ac yn ôl y sector annibynnol, nid yw'r cyllid yn cyrraedd darparwyr. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol fod disgwyl i werthusiad annibynnol o'r Cyflog Byw Gwirioneddol (a gyhoeddir yn ddiweddarach yr hydref hwn) bwysleisio rhai heriau, gan gynnwys y ffaith nad yw cyllid wedi'i glustnodi.[75]

**122.** Mewn perthynas â'r fwrsariaeth gweithwyr cymdeithasol, cyhoeddwyd cynnydd o £10m dros dair blynedd yn 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai cyllid ar gyfer y fwrsariaeth hon yn parhau ar y lefelau uwch ar gyfer 2026-27.[76] Yn ogystal, bydd y Rhaglen Datblygu'r Gweithlu (£10.9) yn parhau i gefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw staff.

---

[74] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 128
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

**123.** Mewn perthynas â data'r gweithlu gofal cymdeithasol, nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog bod Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithio i gyfuno eu prosesau casglu data o 2026, felly dim ond un set o ddata y bydd angen i ddarparwyr ei chyflwyno. Nododd hefyd y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyhoeddi llythyr ar y cyd (wedi'i gyd-lofnodi gan Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru) yn annog darparwyr i gwblhau eu datganiadau.

**124.** Yn ogystal, cyfeiriodd at ddatblygiad data pwynt gwirio gofal cymdeithasol; sef casglu data bob mis gan y 22 awdurdod lleol. Dywedodd, er nad ydynt yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd, "ein huchelgais yw cyhoeddi data gofal cymdeithasol."[77]

## Ein barn ni

**125.** Testun pryder i ni oedd clywed adroddiadau gan arweinwyr y maes iechyd fod y diffyg cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yn un o'r risgiau mwyaf i gynaliadwyedd y system iechyd a gofal yn y dyfodol. Maent wedi dweud bod y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu problemau mawr yn y system gofal cymdeithasol ac wedi gwaethygu gwendidau strwythurol, gan arwain at ganlyniadau torcalonnus i breswylwyr gofal cymdeithasol a'u teuluoedd.

**126.** Yr un mor bryderus yw'r adroddiadau gan lywodraeth leol bod eu rhagolwg ariannol yn gynyddol ansicr, gyda gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i wynebu heriau ariannol difrifol, sy'n gwaethygu, a chynghorau'n adrodd am bwysau sylweddol yn ystod y flwyddyn a gorwariant mawr.

**127.** Credwn nad yw ymateb y Gweinidog, sef fod yr HSC MEG yn darparu cyfraniad gweddol fach i gyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, yn bennaf ar ffurf grantiau, yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r mater, yn enwedig o ystyried y feirniadaeth fynych nad yw trefniadau o'r fath yn rhoi sicrwydd. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy i ddangos ei bod yn parhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ochr yn ochr â chyllid ar gyfer y GIG.

**Argymhelliad 16.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol amlinellu sut fydd y gyllideb ddrafft yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

[77] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

**128.** Mewn perthynas ag ansicrwydd gyda chyllid grant tymor byr, er ein bod yn cydnabod tystiolaeth y Gweinidog bod rhai grantiau ar gael ar sail 5 mlynedd, credwn fod angen gwneud mwy o waith o lawer er mwyn sicrhau bod cyllid mwy cynaliadwy ar gael i ddarparwyr sy’n darparu gwasanaethau iechyd a gofal profedig a hanfodol, ac i leihau’r ansicrwydd a'r amharu mae cylchoedd cyllid tymor byr yn eu hachosi

**129.** Ymhellach mewn perthynas â chyllid grant, rydym yn croesawu’r dull gweithredu newydd mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ef sy’n gofyn i bartneriaid yn y trydydd sector ddarparu gwasanaethau ar sail Cymru gyfan er mwyn gwella cysondeb. Argymhellwn fod effaith y dull gweithredu hwn yn fater a all fod o ddiddordeb i’r pwyllgor sy’n ein holynu.

**130.** Mewn perthynas â'r gweithlu gofal cymdeithasol, rydym yn parhau i fod yn bryderus fod cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol yn annigonol ac nad yw’n cyrraedd darparwyr. Nodwn dystiolaeth y Gweinidog fod disgwyl cyhoeddi gwerthusiad annibynnol o'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn ddiweddarach yr hydref hwn a bod disgwyl iddo amlygu rhai heriau, gan gynnwys y ffaith nad yw cyllid wedi’i glustnodi. Gofynnwn i’r Gweinidog ein diweddaru ar ganfyddiadau’r gwerthusiad hwnnw, gan gynnwys unrhyw gamau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad.

**Argymhelliad 17.** Erbyn diwedd mis Chwefror 2026, dylai’r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol:

- ein diweddaru ar ganfyddiadau’r gwerthusiad annibynnol o'r Cyflog Byw Gwirioneddol (sydd i’w gyhoeddi yr hydref hwn), a rhoi manylion y camau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i’r gwerthusiad hwnnw;

- nodi ei hymateb i’r awgrym y dylai Llywodraeth Cymru ystyried clustnodi’r cyllid ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, o ystyried y pryderon parhaus ynghylch gweithredu anghyson a diffyg cyllid.

**131.** Mewn perthynas â data’r gweithlu gofal cymdeithasol, cyfeiriodd y Gweinidog at ddatblygu data pwynt gwirio gofal cymdeithasol - sef casglu data bob mis gan y 22 awdurdod lleol, a dywedodd er nad yw'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd, ei huchelgais yw bod y data gofal cymdeithasol yn cael ei gyhoeddi. Gofynnwn iddi nodi ei hamserlen ddisgwyliedig mewn perthynas â hyn.

**Argymhelliad 18.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol amlinellu ei hamserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyhoeddi data pwynt gwirio gofal cymdeithasol.

# 9. Gofalwyr di-dâl

**132.** Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog, bydd y Gronfa Gymorth i Ofalwyr (£1.75m) a'r Cynllun Seibiant Byr (£3.5m) yn parhau yn 2026-27, gan gynnig cymorth ariannol a gofal seibiant i ofalwyr di-dâl. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru werth £15.75m o gyllid dros y tair blynedd nesaf (hyd at 2029) i barhau â'r ddau gynllun.[78]

**133.** Clywsom gan y Gweinidog fod 80 y cant o ofalwyr sy'n defnyddio'r Cynllun Seibiant Byr yn darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos, ac mae'r mwyafrif heb gael unrhyw fath arall o seibiant yn y 12 mis diwethaf. Dywedodd wrthym hefyd nad "oedd y gwasanaethau yn gwybod am bron hanner yr ymgeiswyr ar gyfer y ddau gynllun hyn o'r blaen", a dywedodd fod hynny'n dangos gwerth y ddwy gronfa.[79] Nodir yn nhystiolaeth y Gweinidog fod y ddau gynllun wedi "rhagori yn sylweddol ar y targed" ar gyfer 2022-25, "er bod y galw yn parhau i fod yn fwy na chapasiti'r cynlluniau".[80]

**134.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod Strategaeth Genedlaethol wedi'i diweddaru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cael ei datblygu, a bod disgwyl ei chyhoeddi ar ôl mis Mawrth 2026[81]. Dywedodd wrthym:

> *"Mae £717,500 wedi'i ddyrannu (…) i ddarparu gwasanaethau a chymorth i ofalwyr di-dâl ac i gyflawni amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl".*[82]

**135.** Yn ôl tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, mae gofal seibiant yn parhau i fod yn un o'r anghenion mwyaf a fynegir gan ofalwyr, a bydd yn gosod disgwyliadau newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal seibiant digonol fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol. Gofynasom i'r Gweinidog pa gamau gweithredu a chymorth cyllid pellach roedd Llywodraeth Cymru yn fodlon

[78] 'Cyllid gwerth £15.75m gan Lywodraeth Cymru i helpu gofalwyr di-dâl', datganiad i'r wasg, Llywodraeth Cymru 5 Tachwedd 2025
[79] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[81] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 206
[82] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

eu darparu i wella'r modd y caiff y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei rhoi ar waith ac i sicrhau bod hawliau gofalwyr yn cael eu diogelu.

**136.** Dywedodd wrthym:

> *"the starting point here is the statutory responsibility for unpaid carers in terms of their assessments and respite care sits directly with the local authority, and is funded by the local government settlement and not through the health and social care MEG. What we do through the health and social care MEG is to supplement that statutory provision"*[83].

**137.** Dywedodd wrthym ei bod hi'n bryderus iawn bod yna adroddiadau nad oes digon o ofalwyr di-dâl yn cael eu hawl statudol i asesiad gofalwr di-dâl, ac y byddai'n ysgrifennu'n uniongyrchol at arweinwyr awdurdodau lleol i bwysleisio, yn wleidyddol, yr angen iddynt gydymffurfio â'u gofynion cyfreithiol i sicrhau bod pob gofalwr di-dâl a nodir yn cael cynnig asesiad o anghenion gofalwyr.[84] Aeth yn ei blaen i ddweud:

> *"Once they have a carers' needs assessment, if that assessment identifies that respite care should be delivered then the local authority have got a statutory responsibility to deliver it. So, I'm very clear about that, as is my colleague the Cabinet Secretary for Housing and Local Government.."*[85]

## Ein barn ni

**138.** Mae gofalwyr di-dâl yn gwneud cyfraniad hollbwysig o ran gofalu am eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu, a'u cefnogi. Heb eu hymroddiad, byddai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u llethu. Mae hi mor bwysig bod y gofalwyr eu hunain yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i allu parhau i ofalu. Fel y cyfryw, rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar ynghylch cyllid dros dair blynedd i'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr a'r Cynllun Seibiant Byr. Nodwn, fodd bynnag, fod y galw yn parhau i fynd y tu hwnt i gapasiti'r cynlluniau.

**139.** Mae gofalwyr di-dâl yn parhau i bwysleisio'r angen am ofal seibiant. Nodwn dystiolaeth y Gweinidog ei bod yn bwriadu gosod disgwyliadau newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu seibiant digonol fel rhan o'u dyletswyddau statudol,

[83] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 201
[84] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 202
[85] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 202

a'i bod yn bwriadu ysgrifennu at arweinwyr awdurdodau lleol i bwysleisio'r angen iddynt gydymffurfio â'u gofynion cyfreithiol i gynnig asesiad anghenion i bob gofalwr di-dâl sy'n gofyn am un. Wedi dweud hynny, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y bydd hyn yn ddigon i gyflawni'r lefel o newid sydd ei hangen.

**140.** Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft y llynedd, credwn fod yna achos dros fwy o fuddsoddiad cynaliadwy mewn gofal seibiant, yn enwedig ar y sail fod y galw yn parhau i fod y tu hwnt i'r ddarpariaeth. Credwn y dylai'r Gweinidog geisio cyllid ychwanegol yn y Gyllideb Derfynol at y diben hwn.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyllid cynaliadwy ar gyfer gofal seibiant er mwyn cydnabod y galw a'r lefel o anghenion heb eu bodloni a nodir gan ofalwyr di-dâl.

# 10. Y pwysau ar ddarparwyr annibynnol a darparwyr y trydydd sector

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

**141.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Ysgrifennydd y Cabinet ddiffyg gwerth £16m yn y MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol a dywedodd fod hyn oherwydd diffyg mewn cyllid ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch i gyflogwyr:

> *"Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NIC) cyflogwyr yng Nghyllideb yr Hydref 2024. Dywedodd y byddai'n darparu cyllid i dalu am y cynnydd i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, yn dilyn hynny cafodd Cymru swm canlyniadol Barnett o'r costau ychwanegol i gyflogwyr datganoledig yn y sector cyhoeddus yn Lloegr, yn hytrach na'r costau gwirioneddol.*
>
> *Darparodd Llywodraeth y DU £184m o gyllid rheolaidd i Gymru, o'i gymharu â'r gost o £257m. Darparodd Llywodraeth Cymru £36m o'i chronfeydd wrth gefn yn 2025-26 tuag at gostau NICs ychwanegol cyflogwyr. Felly, mae £220m o gyllid sylfaenol ychwanegol wedi cael ei ddarparu i dalu am y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Bydd holl gyflogwyr y sector cyhoeddus yn cael tua 85% o'r amcangyfrif o gynnydd*

> *mewn costau Yswiriant Gwladol y maent yn eu hwynebu yn 2025-26."*[86]

**142.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y GIG, cyrff hyd braich a chyllidebau staff mewnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi gorfod ymdopi â'r diffyg mewn cyllid Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, sef "tua 15% o'u cynnydd gwirioneddol mewn costau". Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru "yn parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU dros ariannu'n llawn costau NICs cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn yr un modd ag y mae wedi ei wneud yn Lloegr."[87]

**143.** Mae Fforwm Gofal Cymru a'r Homecare Association wedi dweud bod darparwyr wedi cael eu gadael i ymdopi â chostau ychwanegol yn sgil y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol heb gymorth digonol, gan nodi eu bod yn ddibynnol ar gyfraddau wedi'u gosod gan y comisiynydd (nad ydynt yn aml yn adlewyrchu'r gwir gostau darparu yn eu barn nhw). Yn ôl Fforwm Gofal Cymru, mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â darparu rhagor o gyllid yn bygwth sefydlogrwydd sector hanfodol sy'n cefnogi'r GIG[88].

**144.** Mewn perthynas â hosbisau a phartneriaid trydydd sector, cadarnhaodd dystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet nad oes cyllid ychwanegol penodol wedi'i ddyrannu yn y MEG ar gyfer effaith Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gan gyflogwyr. Wedi dweud hynny, mae'n nodi bod £3m wedi'i ddyrannu'n rheolaidd i gefnogi'r sector hosbisau, "gan gydnabod yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu mewn nifer o feysydd."[89]

## Gofal lliniarol a diwedd oes

**145.** Yn y gyllideb ddrafft, bydd £3.17m yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r sector hosbisau yn 2026-27. Bydd y cyllid hwn yn rheolaidd, gan gynnal yr ymrwymiad a wnaed yn 2025-26.

**146.** Mae gwerth £9m o gyllid wedi'i glustnodi ym mhrif ddyraniad y GIG yn benodol ar gyfer gofal lliniarol; cymorth mewn profedigaeth; a gofal wedi'i gomisiynu gan hosbisau. Dyrennir £1m yn ychwanegol i Ymddiriedolaeth Felindre i gefnogi pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes.

[86] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru
[88] WGDB26-27 43, Fforwm Gofal Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru

**147.** Gofynasom i Ysgrifennydd y Cabinet pa mor hyderus ydoed y byddai'r dyraniad cyfredol yn ddigonol i fodloni'r galw cynyddol a sicrhau mynediad teg ledled Cymru. Dywedodd wrthym:

> *"We've increased over this Senedd term investment very significantly in hospice care, with over £6.2 million annually in core funding and (…) £9.5 million in a one-off grant. So, the uplift that we put in in 2025-26 has been well received, but, obviously, there are ongoing pressures.*

**148.** Dywedodd mai un o'r heriau oedd sut mae creu mwy o sefydlogrwydd yn y sector a rhagor o amlygrwydd i'r cyllid, a phwysleisiodd y gwaith sy'n cael ei wneud ar ddull comisiynu newydd. Nododd fod cam 1 y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, a bod cam dau ar y gweill, ac mae hwnnw'n ymwneud â dull comisiynu cenedlaethol sydd ag egwyddorion craidd a model newydd. Dywedodd ei fod yn disgwyl i'r gwaith hwnnw fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd y Senedd hon, gyda rhagor o waith i'w wneud eto i baratoi ar gyfer blwyddyn ariannol 2027-28. Dywedodd wrthym:

> *"what we're trying to do is to move through the commissioning process into a more stable funding environment, where we can be clear about the expectations, make sure there's equitable access where those services are commissioned, and then those who provide them have the visibility of funding that goes with those contracting arrangements."*[90]

## Ein barn ni

**149.** Mewn perthynas â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol, nodwn dystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud yr achos i Lywodraeth y DU i ariannu'n llawn gostau uwch Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gan gyflogwyr y sector cyhoeddus yn yr un modd ag y gwnâi yn Lloegr. O ystyried y diffyg o £16 miliwn yn y GIG yn unig yn sgil y Cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch gan gyflogwyr, a'r cais parhaus am gymorth gan Lywodraeth y DU, gofynnwn i Ysgrifennydd y Cabinet nodi pa fesurau wrth gefn sydd ar waith os na fydd y bwlch cyllid yn cael ei ddatrys, a beth yw ymateb Llywodraeth Cymru i alwadau am gymorth targed.

[90] Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2025, para 197-199

**Argymhelliad 20.** Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi:

- y mesurau wrth gefn a fydd yn cael eu rhoi ar waith os na fydd y bwlch o £16m mewn cyllid yn sgil y Cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch gan gyflogwyr yn cael ei ddatrys;
- sut fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff y GIG a darparwyr trydydd sector i ymdopi â'r costau ychwanegol hyn heb gyfaddawdu darpariaeth gwasanaeth; a
- pha un ai a yw rhagor o ymgysylltu â Llywodraeth y DU neu opsiynau cyllid eraill yn cael eu dilyn.

**150.** Mewn perthynas â gofal lliniarol a diwedd oes, ceir pryderon parhaus gan y sector hosbisau a gofal lliniarol ynghylch pwysau ariannol a chynaliadwyedd yn y tymor hir.

**151.** Nodwn y gwaith sy'n cael ei wneud ar ddull comisiynu newydd i ddarparu amgylchedd cyllid mwy sefydlog, ond mae mwy i'w wneud eto cyn ei gwblhau. Yn y cyfamser, credwn fod yna achos cryf dros gyllid ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth hollbwysig hwn, ac anogwn Ysgrifennydd y Cabinet i wneud yr achos dros hyn yn ei drafodaethau ynghylch y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 21.** Credwn fod yna achos cryf dros gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol a diwedd oes, sy'n hollbwysig, ac argymhellwn fod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyflwyno'r achos dros hyn yn ei drafodaethau ynghylch y Gyllideb Derfynol.